**Cofnodion Cyfarfod o CYNGOR**
**A gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa**
**Dydd Iau, 21ain Hydref, 2021**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, Gareth Davies, John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gethin Davies, Ifan Davies (Is-Gadeirydd), Marc Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Hag Harris, Catherine Hughes, Gwyn James, Alun Lloyd Jones, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Catrin Miles, Dan Potter, Ray Quant MBE, Rowland Rees-Evans, John Roberts, Lynford Thomas, Wyn Thomas, Cynghorydd Alun Williams ac Ivor Williams

(10.00 am - 12.30 pm)

**Gweithdrefn**
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, bawb I'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

**1 Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Steve Davies, Matthew Woolfall Jones, Maldwyn Lewis a Mark Strong am nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu

**3 Materion Personol**
a) Estynnodd y Cynghorydd Rhodri Evans longyfarchiadau i Caryl Haf ar gael ei hethol yn Gadeirydd Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru;
b) Estynnodd y Cynghorydd Rhodri Evans longyfarchiadau i Lisa Bulman ar ennill y gystadleuaeth saethu colomennod clai ar lefel ryngsirol. Yn sgil ei llwyddiant yn y gystadleuaeth hon, bydd yn mynd yn ei blaen i gynrychioli Cymru;
c) Estynnodd y Cynghorydd Rowland Rees-Evans longyfarchiadau i Mrs Margaret Jones a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed yfory;
d) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies longyfarchiadau i Sion Jenkins ar gael ei ethol yn Llywydd Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion.

**4 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**
Rhoddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ddiweddariad ar lafar ynghylch sefyllfa COVID-19 yng Ngheredigion. Nododd fod nifer yr heintiadau yng Ngheredigion yn codi a bod cyfanswm o 4,993 achos wedi eu cofnodi yn y sir er dechrau'r pandemig. Mae'r gyfradd heintio yn 353.3 i bob can mil ar hyn o bryd, er hynny Ceredigion yw'r ardal â'r gyfradd isaf yng Nghymru. Mae'r ardal sydd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru â chyfradd heintio o dros fil i bob can mil. Y gyfradd heintio gyfartalog yng Nghymru yw 651.9 i bob can mil. Mae nifer yr heintiadau mewn siroedd cyfagos i Geredigion yn uchel iawn. Roedd 192 achos newydd yng Ngheredigion yn ystod y ddau ddiwrnod diwethaf ac nid yw'r rheiny wedi eu cynnwys hyd yma yn adroddiadau dyddiol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Atgoffwyd pawb bod angen i ni barhau i

fod yn ofalus. O’r achosion newydd a gafwyd yng Ngheredigion, roedd 71 ohonynt mewn ysgolion ac mae o leiaf un dosbarth mewn un ysgol yn awr yn cael ei addysgu o bell. Mae’r achosion yn uchel hefyd mewn dwy ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd.

Mae 86 achos o COVID-19 mewn ysbytMae COVID-19 wedi effeithio ar wasanaethau’r Cyngor, gydag 28 aelod o staff â’r haint COVID-19 ar hyn o bryd. Mae nifer hefyd yn hunanynysu oherwydd achosion yn eu teuluoedd ac mae’r Grŵp Arweiniol wedi gorfod adleoli staff er mwyn sicrhau cydnerthedd y gwasanaethau allweddol.

Mae’r canolfannau brechu wedi’u lleoli ar gampws Llanbadarn ac yng Nghwmcou. Yn ogystal, mae uned beribatetig yn cyflenwi holl ardal Hywel Dda a gallai hon gael ei lleoli yn yr ardal hon. Mae canolfannau profi ar gael hefyd yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth ac ym Mhenmorfa, Aberaeron.
ai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac mae 5 o’r achosion hynny yn Ysbyty Bronglais. Mae 298,000 o bobl Cymru wedi derbyn dos cyntaf y brechlyn a 276,000 wedi derbyn yr ail ddos. Yn ogystal â hynny, mae llawer bellach wedi derbyn y brechlyn atgyfnerthu ac mae 2,0000 o bobl a chanddynt system imiwnedd wannach wedi derbyn eu trydydd brechlyn. Nodwyd mai Ceredigion sydd â’r ganran uchaf yng Nghymru o bobl 12-15 oed sydd wedi derbyn y brechlyn.

**5 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 23 Medi 2021**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Medi 2021 yn rhai cywir.

**6 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Medi 2021**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Medi 2021 yn rhai cywir.

**7 Ystyried Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Strategaeth Gydol Oes a Lles 2021 - 2027 a Chynllun Gweithredu**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Catherine Hughes, Aelod Cabinet ar gyfer Porth Gofal, a nododd y cytunwyd ar adolygiad systematig o’r holl strwythurau a’r meysydd gwasanaeth yn 2017, er mwyn sicrhau bod gan bob un o’r gwasanaethau y capasiti a’r gallu i ddiwallu blaenoriaethau’r cynlluniau a’r amcanion corfforaethol. Roedd y newid mawr, terfynol yn ymwneud ag integreiddio gofal cymdeithasol a dysgu gydol oes yn dri gwasanaeth, Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal a’r tri gwasanaeth hwn ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid yn ffurfio’r pedwar prif faes sy’n rhan o’r Rhaglen Newid Gydol Oes a Llesiant.

Amlinellodd y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Porth Cynnal beth oedd yr amcanion a’r strategaeth sy’n sail i’r adolygiad, gyda phwyslais ar ymagwedd ataliol, gadarnhaol a fyddai’n adeiladu ar gryfderau defnyddwyr ein gwasanaethau, ein staff a’n sir. Rhoddodd Caroline Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol, gyflwyniad a rhannodd fideo a oedd yn rhoi amlinelliad o’r cynnydd o safbwynt y rhaglen a’r cynllun gweithredu.

Gofynnodd aelodau gwestiynau am oblygiadau cyllidol, recriwtio ac ymwneud y gwasanaethau iechyd. Nodwyd y byddai buddsoddi mwy ar atal yn golygu y byddai llai o bobl yn dod yn ddibynnol ar y cymorth drutaf, dwysaf. Cydnabuwyd bod recriwtio yn broblem genedlaethol ac mai nod yr ymagwedd arloesol hon oedd denu pobl i gydnabod pa mor werthfawr oedd gwaith yn y maes hwn a'i fod yn broffesiwn lle mae pwyslais hefyd ar ddatblygiad y gweithlu. Nodwyd bod yr awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd ac yn derbyn arian ar gyfer y gwaith drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol.

Yn dilyn pleidlais, cafwyd **PENDERFYNIAD** unfrydol i gymeradwyo'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021-2027 a'r Cynllun Gweithredu

**8 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adroddiad Blynyddol Drafft ar yr Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Bolisi, Perfformiad a Phartneriaethau. Nododd y cynhaliwyd adolygiad blynyddol o'r Amcanion Llesiant ym mis Mehefin 2021, gan roi ystyriaeth i effaith barhaus pandemig COVID-19 ar ddarparu'r gwasanaeth. Nododd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn y perfformiad gwych yn erbyn yr amcanion hyn, gan ddweud bod y set o Amcanion sy'n bodoli ar hyn o bryd yn parhau yn addas i'r diben ac yn cynnig ymateb mwy penodol i'r pandemig COVID-19, er mwyn diogelu a gwella llesiant pawb yn awr ac yn y tymor hwy.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd yr amserlen ar gyfer ailagor y cyfleusterau hamdden a nofio a nodwyd bod peth oedi oherwydd problemau cael gafael ar ddeunyddiau i gyflawni gwaith angenrheidiol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cytuno ar yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar Amcanion Llesiant a Gwella 2020-2021 a chymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022/23.

**9 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar goblygiadau lefelau ffosffadau yn nalgylch ardal cadwraeth arbennig Afon Teifi ar gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Rhodri Evans, Aelod Cabinet dros Economi ac Adfywio ac amlinellodd y sefyllfa o ran ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi a'r goblygiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Nodwyd bod y sefyllfa gyda'r ffosffadau wedi cael effaith ar y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi ei gynllunio yn lle'r un presennol a rhoddodd werthusiad o'r opsiynau sy'n agored i'r Cyngor, gan gynnwys cynllun chwe thref; ymagwedd oddefol ac ymagwedd a oedd yn cynnwys alinio gofodol.

Nododd Aelodau eu bod yn anhapus gyda chamau gweithredu Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru, gan ddatgan eu pryder y gallai fod cyfyngiadau cynllunio pellach ar ardaloedd arfordirol. Nodwyd bod y sefyllfa yn rhwystredig iawn, fodd bynnag byddai angen i'r Cyngor fabwysiadu ymagwedd bragmataidd o ran yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cytuno ar saib dros dro, am gyfnod amhenodol ar hyn o bryd, ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd, yn amodol ar gadarnhad Llywodraeth Cymru.

**10 Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2020-21**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor gan y Cynghorydd Ceredig Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Nododd fod Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddefnyddio i amlygu'r gwaith y mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ei wneud, dangos sut mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud gwahaniaeth a chefnogi gwelliannau parhaus i Gynghorwyr.

Diolchodd i'r Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion TGCh am eu cymorth a'u holl waith caled er mwyn sicrhau bod y cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal o bell a gofynnodd i'r Aelodau ystyried eu gofynion TGCh o fis Mai 2022 ymlaen.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Cyngor.

**11 Ystyried Adroddiad y Prif Weithredwr ar Orchymun Sir Ceredigion (Trefniadau Etholiadol) 2021**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor gan Eifion Evans, y Prif Weithredwr, a nododd fod y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi gwneud Gorchymyn ar 11 Hydref 2021 a oedd yn gosod argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn deddf. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y diwrnod sydd wedi ei bennu ar gyfer ethol cynghorwyr sef 5 Mai 2022.

Rhoddodd grynodeb o'r newidiadau, gan gynnwys cwtogi ar nifer y Cynghorwyr o 42 i 38, lleihau nifer y wardiau etholiadol o 40 i 34, cyfanswm o 18 newid i wardiau etholiadol a 4 ward etholiadol aml-aelodaeth.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Cyngor.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2021**

**CADEIRYDD: ______________**